Difetha'r Picnic

Cysyniadau: **Amynedd, derbyn eraill, parchu.**

Amcan: **Dangos bod yna bwrpas i bopeth byw.**

Cyfarpar: **Llun o'r wenynen feirch.**
Llun o blant yn mwynhau picnic.

Cyflwyniad:

● Faint ohonoch chi fydd yn hoffi mynd am bicnic yn ystod yr haf? Trafod i ble bydden nhw'n mynd a'r gwahanol fathau o fwydydd fydden nhw'n hoffi.

● Pwy fydden nhw'n wahodd i ymuno efo nhw? Ffrindiau. Rhieni.

● Tybed oes yna rywun neu rywbeth arall yn awyddus i ymuno efo ni yn y picnic? Rhywun nad ydyn ni ddim yn hoffi ei weld? Y wenynen feirch neu'r bicwnen!

● Pam mae hon yn hoff o ymuno efo ni? Mae'r bwydydd a lliwiau'r bwydydd yn ei denu – yn enwedig bwydydd a diodydd melys. Byddwch yn ofalus pan fyddwch wedi agor can o lemonêd rhag ofn fod y wenynen feirch wedi mynd i mewn o dan y caead!

Trafodaeth bellach:

● Dowch i ni bleidleisio. Pwy sy'n barod i gael gwared â'r holl wenyn meirch yn y byd? Pwy sydd am bleidleisio o blaid neu yn erbyn? Cyfle i'r plant ddangos trwy roi eu dwylo i fyny. Holi'r plant sydd o blaid cadw'r gwenyn meirch. Oes yna bwrpas iddyn nhw?

● Mae'r gwenyn meirch yn chwarae rhan ecolegol bwysig. Fel y gwenyn mêl mae'r gwenyn meirch yn peillio'r blodau h.y. maen nhw'n

cario'r paill o un blodyn i'r llall a hynny er mwyn creu hadau fydd yn creu mwy o flodau. Maen nhw'n cario protîn i fwydo'r larfa yn y nyth ac mae'r protîn hwn yn dod o greaduriaid eraill fel pryfed gwyrdd, morgrug a lindys ac anifeiliaid sydd wedi marw. Maen nhw hefyd yn benseiri o'r radd flaenaf. Maen nhw i'w gweld yn cnoi pren meddal fel pren ffens yn yr ardd a'i droi'n fwydion i greu nyth sy'n debyg i fwydion papur (papier mâche). Fe all y rhain fod cymaint â phêl-droed.

● Ond, meddech chi, mae'r wenynen yn pigo. Ac mae'r pigiad yn boenus iawn, coeliwch fi! A dyna sut maen nhw'n lladd eu hysglyfaeth a'i gario i'r nyth i fwydo'r larfau.

● Felly, mae'r wenynen feirch yn ffrind da i'r amgylchfyd. Hebddyn nhw byddai llawer mwy o greaduriaid niweidiol o gwmpas.

● Fedrwch chi feddwl am greaduriaid eraill sydd yn anghynnes ond eto sy'n helpu'r amgylchfyd? Y twrch daear (gwahadden) a'r llygoden dyrchol (mole rat), a'r hyn sy'n hynod am y llygod hyn yw nad ydyn nhw'n dioddef o ganser. Felly mae gwyddonwyr â diddordeb mawr ynddyn nhw.

● Dydi pethau ddim mor syml ag y maen nhw'n edrych. Efallai mai dyna'r rheswm pam roedd Iesu'n ein rhybuddio i beidio beirniadu pobl eraill. Efallai nad ydyn ni'n hoff iawn o hwn a hwn neu hon a hon ond mae rhinweddau da ym mhawb.

Meddai Iesu: "Peidiwch bod yn feirniadol o bobl eraill, ac wedyn wnaiff Duw mo'ch barnu chi... "Pam wyt ti'n poeni am y sbecyn o flawd llif sydd yn llygad rhywun arall, pan mae trawst o bren yn sticio allan o dy lygad dy hun!? Sut alli di ddweud, 'Gad i mi dynnu'r sbecyn yna allan o dy lygad di,' pan mae trawst yn sticio allan o dy lygad dy hun? Rwyt ti mor ddauwynebog! Tynna'r trawst allan o dy lygad dy hun yn gyntaf, ac wedyn byddi'n gweld yn ddigon clir i dynnu'r sbecyn allan o lygad y person arall." Mathew 7:1, 3-5 beibl.net

Emyn: Miwsig natur: Mwy o Glap a Chân 16

Munud i feddwl:
Un o'r pethau mwyaf prydferth yw gweld y gorau ym mhawb.

Myfyrdod/Gweddi:
Ti, O Dduw, sydd wedi creu'r byd a'r holl blanhigion a chreaduriaid sydd ynddo. Pan ydw i'n barod i weld bai ar bobl eraill mae hynny'n f'atgoffa o'r wenynen feirch. Amen.